

## Siarcod Benthg Arian ym Merthyr yn y carchar am glirio cyfrifon am dair munud wedi hanner nos

### Contents:

Siarcod Benthg Arian ym Merthyr yn y carchar am glirio cyfrifon am dair munud wedi hanner nos	1
Dyn Arian' a achosodd i deulu fyw ar datws yn mynd i'r carchar am 15 mis	2
Cyfarfodwch Lenny a Lottie	3
O'r Llysoedd	4-5
Strategaeth Cynhwysiant Ariannol	5
Yn y cymunedau	6
Addysg Ariannol	7-8
Gwybodaeth	8
Swyddogion Cyswllt Cleientiaid	9
Sut I adnabod benthyciwr arian didrwydded	10

**Cafodd Paul Bow, 51 oed, ac Elizabeth Powell, 48 oed, y ddau o'r Gurnos ym Merthyr Tudful, eu dedfrydu i'r carchar, Bow am 18 mis a Powell am 12 mis.**



diwydiannol, hyn i'w ddweud am Bow: "Os mae'n cael gafael arnoch, fydd e ddim yn rhoi'r cerdyn nôl nes i ti dalu pob dim yn ôl". Gan ddisgrifio Powell dywedodd Terry "mae hi fel peiriant yn mynnu i fi roi'r cardiau iddi".

Dywedodd Ei Anrhydedd y Barnwr Richard Twomlow wrth y llys fod Bow a Powell wedi defnyddio "bwllo a thactegau bygythiol i sicrhau y byddai'r cylch o fenthycia arian yn anghyfreithlon yn parhau". Disgrifiodd y troseddau fel rhai "hirhoedlog a phwrpasol, wedi'u cyflawni'n ddidrugaredd." Gan annerch Bow a Powell, dywedodd y barnwr:


Manteisiodd Bow a Powell ar oedolion ag anawsterau dysgu yn ardal Merthyr. Pan gawsant eu harestio, daethpwyd o hyd i sawl cerdyn Swyddfa'r Post yn eu cartref. Daeth i'r amlwg fod y cwpl yn cadw'r cardiau fel sicrwydd ar gyfer benthyciadau. Roedd eu telerau safonol yn gofyn i ddwbl y swm gwreiddiol gael ei ad-dalu, gyda'r swm yn cael ei ddyblu eto pe bai unrhyw randaliadau'n cael eu colli. Byddai'r siarcod yn mynnu bod benthycwyr yn mynd â nhw i beiriant codi arian dair munud wedi hanner nos ar y diwrnod roedd yr arian i fod i gyrraedd eu cyfrifon. Byddant yna'n cymryd yr holl arian a godwyd gan y bobl namyn £5, a oedd yn golygu bod angen iddynt fenthycia rhagor o arian ganddynt i fyw arno, gan arwain at gylch diddiwedd o ad-daliadau.

Helpodd gweithiwr cymorth o'r elusen ddigartrefedd ADEF deulu Saunders\* pan gawsant fygwth o gael eu troi allan, a gwelwyd y sefyllfa druenus roeddent ynddi. Gwnaeth eu hannog nhw i gysylltu ag Uned Benthycia Arian Anghyfreithlon Cymru i roi gwybod am Bow a Powell. Roedd gan deulu Saunders anabledau dysgu, a daeth i'r amlwg fod Bow a Powell wedi bod yn manteisio arnynt ers dros pum mlynedd. Roedd gan Terry Saunders, sy'n dal i ddiodef o ganlyniad i anaf

"Gwnaethoch haeru eich bod wedi benthyci'r arian o ddaioni'ch calonnau. Yn fy mhrofiad i mae hwn yn honiad rheolaidd a rhagrithiol a wna benthycwyr arian didrwydded. Nid oes yr un ohonoch wedi dangos eich bod yn edifar. Gwnaethoch fanteisio ar y bobl ddiamddiffyn hyn oherwydd eich barusrwydd."

Dywedodd Stephen Grey, Rheolwr Ymchwiliadau Uned Benthycia Arian Anghyfreithlon Cymru: "Mae hwn yn achos arbennig o gas, lle targedwyd pobl ddiamddiffyn gan ddau fenthyciwr arian didrwydded didostur. Roedd y gyfradd yn gronnol. Os methwyd taliad, byddai cyfanswm y benthyciad penodol hwnnw'n dyblu eto. Roedd yr hyn a wnaeth Bow a Powell yn warthus, a chân nhw ddigon o amser i feddwl am eu troseddau yn y carchar."

\*nid ei enw go iawn



## ***'Dyn Arian' a achosodd i deulu fyw ar datws yn mynd i'r carchar am 15 mis***

**Cyfarfodwch Lenny & Lottie—see page 3**



***Mae Gareth Jenkins o Gaerffili wedi'i ddedfrydu yn Llys y Goron Casnewydd i 15 mis yn y carchar am fenthyca arian yn anghyfreithlon. Wrth ddedfrydu Jenkins, dywedodd yr Anrhydeddus Farnwr Michael Fitton QC : "roeddech chi'n manteisio ar bobl a oedd yn agored i niwed yn ariannol... roeddech yn eu brawychu ac yn eu rhoi dan bwysau"***

Rhoddodd Jenkins fenthyg arian i oedolion sy'n agored i niwed â phroblemau iechyd, ac nad oedd ganddynt fawr ddealltwriaeth o faterion ariannol, yn ardal Caerffili. Roeddent yn ei alw'n 'Y Dyn Arian'. Byddai Jenkins yn cymryd cardiau swyddfa'r post unigolion fel sicrwydd, yn cael eu rhif PIN, ac yna'n tynnu cymaint o arian ag y mynnai o'r cyfrifon ar y diwrnod talu budd-daliadau. Roedd yn manteisio ar rai o'r bobl am dros ddegawd, gyda'r bobl yn colli rheolaeth dros eu harian: nid oedd gan rai ohonynt unrhyw syniad faint roedd Jenkins yn ei gymryd oddi wrthynt gan nad oeddent yn gwybod faint o incwm roeddent yn ei gael.

Roedd David a Linda\* ymhlith y bobl y cymerodd Jenkins fantais arnynt, cwpwl a fenthycodd £100 i ddechrau gan Jenkins dros ddeng mlynedd yn ôl ac yna drefnodd lu o fenthyciadau. Cymerodd Jenkins eu llyfrau budd-dal oddi wrthynt fel sicrwydd, ac yna eu cardiau swyddfa'r post a'u rhifau PIN. Dywedodd David "Efallai ei bod hi'n swnio'n dwp ond syrthiais i'r fagl.....ac yna roedden ni'n mynd yn ddyfynach byth i ddyled".

Roedd gan y cwpl ddau o blant, ac roedd gan y teulu o bedwar tua £70 i £80 i fyw arno am wythnos. "Roedden ni'n byw'n gynnil ac efallai ond yn cael un pryd o fwyd y dydd" dywedodd Linda, gan esbonio sut y byddent yn prynu sach o datws ac yna ond yn bwyta sglodion un diwrnod a thatws wedi'u berwi y diwrnod nesaf.



**Gareth Jenkins**

Aeth y pwysau'n ormod dros y blynyddoedd, cafodd David waeledd nerfol a cheisiodd ei ladd ei hun, a cheisiodd Linda ei lladd ei hun ar ddau achlysur.

Unwaith y cafodd WIMLU wybod am Jenkins, fe gafodd ei arestio a daethpwyd o hyd i £30,680 yn ei dŷ. Cyfrifodd y swyddog ymchwilio y dylai'r teulu, dros ddeng mlynedd, fod wedi derbyn dros £132 000 mewn budd-daliadau, ond ni chawsant ond £40,480 oherwydd cadwodd Jenkins £92,000.

Dywedodd David a Linda "Rydym yn ddiolchgar iawn i WIMLU, allen ni ddim fod wedi dal ati fel oedden ni, mae ein bywydau wedi newid yn llwyr."

\*nid eu henwau go iawn

## CYFARFODWCH LENNY A LOTTIE



Yn cyflwyno Lenny a Lottie, dau aelod diweddaraf y tîm! Mae eu hwythnosau cyntaf gyda ni wedi bod yn rhai cyffrous, gan ymweld ag ysgolion, diwrnodau hwyl a digwyddiadau i'r teulu. Gwnaethon nhw hyd yn oed i bremiere ffilm yng Nghaerffili, a chael eu lluniau wedi'u tynnu gyda'r Maer..

*Hoffem ddod i unrhyw ddigwyddiadau/diwrnodau hwyl y gallech eu trefnu i godi ymwybyddiaeth am fenthycwyr arian didrwyded.*



### SAFONAU MASNACH CENEDLAETHOL

Tîm Benthycy Arian  
Anghyfreithlon Cymru

Gwarchod Defnyddwyr  
Diogelu Busnesau

**Mae ymchwiliadau yn mynd rhagddynt yn yr awdurdodau heol canlynol:**

Casnewydd

Sir y Fflint

Rhondda Cynon Taff

Caerffili

Abertawe

**Mae WIMLU yn disgwyl eich galwad ar 0300 123 3311 os ydych yn amau bod benthycy arian yn anghyfreithlon yn digwydd yn eich ardal chi.**

**LLINELL GYMORTH 24 AWR WIMLU 0300 123 33 11**

## O'r Llysoedd...

*Dyma grynodeb o'n herlyniadau llwyddiannus dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae WIMLU yn dal i weithredu ag awdurdod a chefnogaeth Penaethiaid Safonau Masnach Cymru a hoffem ddiolch i'n cydweithwyr yn Safonau Masnach yng Nghymru benbaladr am eu cymorth dros y flwyddyn.*

### **DROS 400 O BOBL YN NE-DDWYRAIN CYMRU'N CAEL BENTHYCIADAU ANGHYFREITHLON**

#### **Trwydded wedi dod i ben**

Cafodd teulu yng Nghaerdydd a oedd yn benthyg arian yn anghyfreithlon eu dal yn benthyca arian parod i dros 400 o bobl yn ne Cymru. Plediodd Bernard Bloom, 78 oed, a'i feibion John Bloom, 50, a Wayne Bloom, 56, yn euog yn Llys y Goron Caerdydd i gyhuddiadau dan y Ddeddf Credyd Defnyddwyr. Roedd gan gwmni Bernard Bloom drwydded credyd defnyddwyr tan 2006, pan ddaeth i ben, ac ni chafodd ei hadnewyddu. O hynny ymlaen benthyciodd arian yn anghyfreithlon. Ar ôl ymddeol yn 2011, gwerthodd Bloom y ddyled i'w ddau fab, a barhaodd i gasglu'r dyledion ond a wnaeth hefyd sefydlu eu busnesau didrwydded eu hunain, gan ddal ati i ddefnyddio dogfennau Bloom & Co. Dywedodd y Barnwr wrth Bernard Bloom yn glir fod yn rhaid iddo dalu'n ddrud am ei dwpdra wrth anwybyddu ei gyfrifoldeb i feddu ar drwydded.

#### **Enillion Troseddau**

Ar ôl pledio'n euog, llwyddodd WIMLU i adennill £100,000 drwy gais enillion troseddau. Gorchmynnwyd Bernard Bloom i dalu £100,000 o fewn chwe mis neu wynebu dwy flynedd yn y carchar. Roedd yn rhaid iddo hefyd dalu dirwy o £2,500 a £4,600 mewn costau. Rhyddhawyd ei feibion yn amodol. Dywedodd Steve Grey, rheolwr WIMLU, fod dros 400 o bobl yn ne-ddwyrain Cymru, o'r Barri i Gwmbrân, wedi benthyg arian gan y teulu. Roedd y busnes yn werth degau o filoedd o bunnoedd.



#### **PWY ALL ROI GWYBOD AM FENTHYCIWR ANGHYFREITHLON?**

**Gall unrhyw un ffonio a gwybodaeth am fenthyciwr anghyfreithlon—dioddefwr, ffrind dioddefwr, gweithiwr ymgynghori, person lleol, swyddog yr heddlu, cymydog....**

**Mae'r alwad yn gwbl gyfrinachol. Ni chewch eich gofyn I fynd gerbron llys.**

**Does dim angen I chi roi enw hyd yn oed—gallwn weithio gyda gwybodaeth ddienw.**

## O'r Llysoedd

### Cosb o £9,500 i yrrwr tacsï a oedd hefyd yn gweithredu fel benthyciwr arian anghyfreithlon

Yn Llys y Goron, Casnewydd, plediodd Leslie Ramroop, gyrrwr tacsï 69 oed o Ben-y-bont ar Ogwr, yn euog i bum cyhuddiad o fenthycia arian yn anghyfreithlon. Cafodd ddirwy o £3,500 a gorchmynnwyd iddo dalu £1070 o iawndal a £5,000 o gostau hefyd.

Dywedodd un a fenthycodd arian ganddo ei fod wedi benthycia arian gan Ramroop "i helpu gyda anghenion bywyd bob dydd... Mae'n hawdd dweud wrth bobl i beidio, ond does dim dewis gan rai pobl"

### *Benthyciwr arian didrwydded yn pledio'n euog yn Llys y Goron Caernarfon*

Gwnaeth Nondon Roy, 25 oed o Brestatyn, Sir Ddinbych, bledio'n euog i ddau gyhuddiad o fenythca arian yn anghyfreithlon. Dedfrydwyd Roy i bedwar mis o garchar (wedi'i ohirio am 12 mis) a gorchmynnwyd iddo gyflawni 150 awr o waith didâl, yn ogystal â thalu costau o £1,000. Gwnaeth Roy, perchennog bwyty cludfwyd ym Mhrestatyn, fenthycia arian yn ddidrwydded ar gyfraddau llog uchel i aelodau'r gymuned Pacistanaidd a Bangladeshaid. Pan gafwyd anghydfod am yr ad-daliadau, gwnaeth Roy hyd yn oed geisio defnyddio'r llysoedd sifil i adennill y dyledion anghyfreithlon.



### **ERLYNIADAU SYDD AR DDOD ...**

Mae dyn o Dde Cymru wedi cael ei gyhuddo o fenthycia arian heb drwydded, lladrata, twyll, bygwth tystion a gwyrddroi cwrs cyfiawnder. Bydd yr achol yn destun prawf a fydd yn para dwy wythnos a hanner ym mis Tachwedd.

### ***Strategaeth Cynhwysiant Ariannol***

Mae WIMLU yn parhau i werthfawrogi cymorth Llywodraeth Cymru. Mae'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi cytuno i adnewyddu'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol, ac wedi gofyn i WIMLU ymuno â'r grŵp ymgynghorol sy'n gweithio ar yr adolygiad o'r strategaeth. Mae benthycwyr arian didrwydded i'w cael yn amlach na pheidio yng nghymunedau tlotaf Cymru, felly mae hwn yn gyfle i'r uned sicrhau bod y broblem a achosir ganddynt yn aros wrth wraidd agenda Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru.

## YN Y CYMUNEDAU.....

### Hyrwyddwyr Atal Benthycwyr Arian Didrwydded

*Mae'r gwobrau hyn yn dathlu'r gwaith gwyb sy'n cael ei wneud yn ein cymunedau i helpu i erlyn benthycwyr arian didrwydded a dileu dyledion anghyfreithlon. Cafodd cynigion eleni gan ein hasiantaethau partner gryn argraff ar Stephen Grey, rheolwr WIMLU, a chafodd chwe thîm £1,000 i'w wario ar godi ymwybyddiaeth o fenthycwyr arian didrwydded. Cafodd y gwobrau eu hariannu drwy arian parod a gymerwyd oddi ar fenthycwyr arian didrwydded a erlynwyd.*



- Enillodd CAB Caerffili a Blaenau Gwent y wobwr am eu gwaith partneriaeth â WIMLU yn eu cyrsiau hyfforddiant ar eithrio/capasiti ariannol, yn ogystal â chyfeirio dau achos newydd at WIMLU a helpu'r dioddefwyr yn yr achosion. Caiff y £1,000 ei wario ar lunio senario chwarae rôl i'w ddefnyddio yng nghlybiau ieuenctid Cymunedau yn Gyntaf i ddangos natur a gwir natur benthycwyr anghyfreithlon.
- Canolfan Cyngor ar Bopeth Rhondda Cynon Taf enillodd y wobwr am drefnu hyfforddiant i staff a gwirfoddolwyr ac i helpu dioddefwyr achosion WIMLU. Caiff y £1,000 ei wario ar redeg ymgyrch gyhoeddusurwydd fis o hyd â chleientiaid a sefydliadau partner, gan weithio gyda WIMLU a Safonau Masnach Rhondda Cynon Taf.
- Enillodd Stephanie Howells, Gweithiwr Cymorth i Dai Gwalia, a'i chydweithwyr wobwr am gyfeirio achos at WIMLU a chynnig cymorth i ddioddefwyr. Caiff yr arian ei wario ar drefnu digwyddiadau cynnwys cleientiaid sy'n hyrwyddo WIMLU ac yn sicrhau y caiff WIMLU ei hyrwyddo mewn digwyddiadau lleol eraill.
- Enillodd Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn wobwr am godi ymwybyddiaeth o fewn adrannau'r cyngor a threfnu i WIMLU gynnal sesiynau hyfforddiant i staff a sefydliadau partner. Gwnaethant hefyd godi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau cyhoeddus ac mewn cylchlythyron a ddsbarthwyd i 3,800 o dai. Caiff y £1,000 ei wario ar ymgyrch 'Yn poeni am gost y Nadolig?' sy'n targedu teuluoedd di-waith.
- Enillodd Tai Cymunedol Cymru wobwr am gynhyrchu hysbysebion radio a theledu mewn partneriaeth â WIMLU, a lansiwyd mewn digwyddiad amlwg yn y Senedd. Caiff y wobwr ariannol ei gwario ar wisg siarc a deunydd hyrwyddo ar gyfer digwyddiadau a sioeau teithiol.
- Dewiswyd Tîm Cefnogi Pobl Caerffili fel enillwyr am eu digwyddiadau hyrwyddo yn ardal Cyngor Sir Caerffili a threfnu i Uned Benthycwyr Arian Anghyfreithlon Cymru hyfforddi canran uchel o'r staff perthnasol, a rhoi cymorth WIMLU i ddioddefwyr. Gwariwyd yr arian ar wneud ffilm fer ar fenthycwyr anghyfreithlon, WIMLU a chredyd fforddiadwy. Adrodda'r ffilm gyfres o straeon trist dau berson sy'n gwneud camgymeriad drwy dderbyn 'help' gan fenthycwyr didrwydded, gan arwain at dorcalon a braw. Cafodd y ffilm breiere carped coch yn sinema Maxime yn y Coed Duon, a gellir ei weld yma: <https://www.youtube.com/watch?v=qkhh3ci2UK8>

## Addysg Ariannol

Defnyddiodd WIMLU arian a gymerwyd oddi ar fenthycwyr arian didrwydded i baratoi deunydd addysgu i blant a phobl ifanc am beryglon benthycwyr arian didrwydded, a hefyd i'w helpu i reoli eu harian yn ddoeth, fel y gallant osgoi mynd i drafferthion ariannol yn y dyfodol.

Cafodd y pecynnau eu paratoi a'u treialu mewn nifer o ysgolion gan ennill marc ansawdd pfeff. Maent ar gael yn Gymraeg a Saesneg.



Mae un pecyn yn addas i blant bach 5-11 oed a'r llall i blant hŷn a phobl ifanc 11-19 oed. Maent yn annog pobl ifanc i feddwl am beth y maen nhw ei angen a'i eisiau, ystyried cadw trefn ar eu harian a dod i ddeall credyd. Mae modd cynnwys y gweithgareddau mewn gwersi mathemateg, rhifedd, llythrennedd, drama neu ABCh. Mae'n trafod benthycwyr arian didrwydded mewn ffordd sensitif sy'n addas i blant – cartŵn sy'n adrodd stori beth sy'n digwydd i Mr Pengwin pan fydd yn benthycw ei arian gan Mr Ffin...

Mae hefyd ddiddordeb yn y deunyddiau gan garchardai, athrawon anghenion

arbennig, grwpiau ieuenctid a hyfforddwyr rhifedd i oedolion.

Cynhaliodd WIMLU gyfres o ddigwyddiadau mewn ysgolion ledled Cymru ym mis Mawrth, a oedd yn cynnwys ymweliad ag Ysgol Uwchradd Fitzalan yng Nghaerdydd gan Lesley Griffiths, y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi. Cafwyd rhagor o ddigwyddiadau yn Abertawe, Conwy, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gâr a Phowys.

Dywedodd pennaeth Mathemateg Ysgol Aberdaugleddau: "Mae'n dod yn amlwg bod angen i blant fod yn fwy ymwybodol o arian er mwyn peidio â mynd i drafferthion



ariannol pan fyddant yn hŷn. Ar ôl y cyflwyniad hwn ar fenthycwyr arian didrwydded, byddwn yn datblygu'r thema ymhellach gyda'r ysgol." Ychwanegodd un o'i ddisgyblion 12 oed: "Roedd yn hwyl dysgu amdano, felly yn y dyfodol byddwn yn gwybod i beidio â gwneud yr un camgymeriadau"

Dywedodd rheolwr WIMLU, Steve Grey: "Mae WIMLU yn awyddus iawn i ddefnyddio enillion troseddau yn y ffordd orau bosib. Pa ffordd well sydd o wneud hyn na gwella sgiliau ariannol plant a phobl ifanc?"

## Addysg Ariannol



Gallwch lawrlwytho deunydd o  
[www.caerdydd.gov.uk/WIMLU](http://www.caerdydd.gov.uk/WIMLU)

Mae rhagor o wybodaeth a chopïau print  
o'r deunyddiau ar gael gan WIMLU  
02920871090 or

Email: [imlu@caerdydd.gov.uk](mailto:imlu@caerdydd.gov.uk)

## Gwybodaeth

Mae holl ymchwiliadau WIMLU yn dechrau gyda gwybodaeth sy'n dod i law am achosion honedig o fenthycu arian yn anghyfreithlon. Weithiau mae ansicrwydd am y math o wybodaeth y gellir ei rhoi i'r uned, felly mae ein harchwilwyr wedi llunio canllawiau defnyddiol. Dywed y rheolwr Stephen Grey:

“Yn gyntaf oll, nid oes ots os nad oes gennych yr HOLL wybodaeth am fenthyciwr arian didrwydded! Mae ein hachosion yn aml yn dechrau gyda mân wybodaeth fel enw'r benthyciwr neu'r ardal o'r gymuned y mae'n gweithredu ynddi. Mae'n ddefnyddiol rhoi ychydig yn fwy o fanylion i ni, fel cyfeiriad, rhif cofrestru car, neu ddulliau casglu, ond gallwn ddechrau ymchwiliad gyda phrin ddim gwybodaeth – ffoniwch ni ar **0300 123 33 11** i gael sgwrs ag un o'r tîm am eich pryderon. A pheidwch â phoeni am roi'ch enw i ni – does dim rhaid gwneud hynny, gallwn weithredu ar wybodaeth gan alwyr dienw. “

Dywed Stephen fod gan WIMLU ymchwiliadau yn mynd rhagddynt sydd wedi dod o ystod eang o ffynonellau: gweithwyr cynghori, trigolion lleol, swyddogion heddlu, a'r dioddefwyr eu hunain. Mae'n pwysleisio hyn: “y neges bwysig yw y gall unrhyw un ffonio gyda gwybodaeth am honiadau o fenthycu arian yn anghyfreithlon. **Gallwch ffonio 0300 123 33 11 bob awr o bob dydd, a bydd un o'r tîm yn cael y neges.**”

### Carchardai

Yn ogystal â'r rhaglen hyfforddiant barhaus ar godi ymwybyddiaeth am fenthyciwr arian didrwydded yng ngharchardai Cymru, mae WIMLU wedi lansio menter mewn partneriaeth â Charchar Caerdydd. Mae bellach rhadffôn ar bob landin yng Ngharchar Caerdydd i alluogi'r carcharorion i roi gwybod am fenthycwyr arian didrwydded. Gobeithio y gellir cyflwyno'r cynllun hwn mewn carchardai eraill yng Nghymru.

### Facebook

Sicrhewch eich bod yn cadw mewn cysylltiad â'r holl weithgareddau a newyddion gan WIMLU ar ein tudalen Facebook!

[www.facebook.com/  
stoploansharkswales](http://www.facebook.com/stoploansharkswales)



## Swyddogion Cyswllt Cleientiaid:

Wrth i fwy a mwy o ymchwiliadau i fenthycwyr arian didrwydded ddigwydd ledled Cymru, mae Ryan ac Elizabeth wedi croesawu penodiad Chrissie fel trydydd Swyddog Cyswllt Cleientiaid. Mae'r tri yn cynnig cymorth i ddiodefwyr benthycwyr arian didrwydded, a allai fod ag ystod eang o broblemau gan gynnwys dyledion, iechyd neu lety. Y mae pob dydd yn wahanol iddynt. Gallant fod yn ymweld â diodefwyr ynghylch symud tŷ, helpu gyda chais am fudd-dal, neu drefnu atgyfeiriad i roi cyngor ar ddyledion. Mae eu gwaith yn mynd â nhw i bob rhan o Gymru, ac maent wedi creu rhwydwaith anhygoel o asiantaethau partner ym mhob rhanbarth, i sicrhau bod diodefwyr benthycwyr arian didrwydded yn cael y cymorth gorau posibl lle bynnag y maen nhw.



## SUT I ADNABOD BENTHYCIWR ARIAN DIDRWYDDED

Mae Ryan, Chrissie ac Elizabeth yn aml yn cael eu gofyn gan weithwyr cymorth a staff rheng flaen eraill am sut i wybod bod un o'u cleientiaid wedi'u targedu gan fenthyciwr arian didrwydded. Wedi'r cyfan, gall godi cywilydd neu hyd yn oed ofn ar bobl wybod eu bod wedi benthyciwr arian gan fenthyciwr didrwydded. Felly mae'r swyddogion wedi nodi rhai pethau i edrych allan amdanynt:



- Ydy'ch cleient mewn dyled i 'ffrindiau neu deulu'?
- Oes ganddo braidd dim gwaith papur am y benthyciad hwn?
- Oes ganddo o hyd ei gerdyn banc neu swyddfa bost, neu yw e wedi'i gymryd i 'ddiogelu' yn erbyn y benthyciad?

Dyma rai o'r pethau i edrych allan amdanynt, ac mae'r swyddogion yn fwy na pharod i gynnig hyfforddiant dwys i weithwyr cymorth/cynghori, gwirfoddolwyr, neu unrhyw grŵp arall a allai gael budd o fesurau codi ymwybyddiaeth eraill. Mae'r sesiynau am ddim, a chânt eu haddasu i anghenion penodol pob sefydliad, fel y gallwch deimlo'n hyderus eich bod yn deall natur gweithgareddau benthyciwr arian didrwydded, sut i'w adnabod, a beth i'w wneud os oes gennych amheuan. **Ffoniwch 02920 871090** i holi'r swyddogion am hyfforddiant am ddim, neu e-bostiwch [imlu@caerdydd.gov.uk](mailto:imlu@caerdydd.gov.uk)

***Os teimlwch y gallai'ch sefydliad gael budd o hyn, mae croeso i chi gysylltu***

***a Ryan, Chrissie neu Elizabeth ar: 02920 871090***

[ryevans@cardiff.gov.uk](mailto:ryevans@cardiff.gov.uk) [christine.sumner@cardiff.gov.uk](mailto:christine.sumner@cardiff.gov.uk) [eemmons@cardiff.gov.uk](mailto:eemmons@cardiff.gov.uk)


**LLINELL GYMORTH 24 AWR WIMLU 0300 123 33 11**

**Are you a loan shark victim?  
A ydych chi'n dioddef oherwydd siarcod benthyg arian?**

If you've been a loan shark victim or know a victim, call our **24 hour hotline** for help and advice in the strictest confidence.

Os ydych chi wedi dioddef oherwydd usuriwr neu'n gwybod am rywun arall sydd wedi dioddef, ffoniwch ein **llinell 24 awr** am gymorth a chyngor yn gyfrinachol.

**0300 123 33 11**

 /stoploansharkswales  
email: [imlu@cardiff.gov.uk](mailto:imlu@cardiff.gov.uk)

